PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 4 HYDREF 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Cunnah, Henshaw, Jenkins a/ac Lloyd Jones |

18 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Robinson a Shimmin

19 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

20 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2002 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

21 : DIWEDDARIAD MEYSYDD/ARDALOEDD CHWARAE

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau graffu ar adnewyddu meysydd chwarae a mannau chwarae yng Nghaerdydd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke-Davies – Aelod Cabinet – Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu; Rosie James – Rheolwr Strategaeth a Datblygu Parciau, a Jon Maidment – Rheolwr Gweithredol – Parciau ac Awdurdod Harbwr i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad. Gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau, arsylwadau a gofyn cwestiynau.

Gofynnodd yr aelodau sut y byddai'r ôl-groniad yng ngwariant A106 yn cael sylw yn y llinell amser a ddangosir iddynt heddiw. Dywedodd swyddogion fod yr ôl-groniad yn flaenoriaeth y llynedd a bod cyflymu yng nghyflawni'r rhaglen wedi bod. Yn ogystal â hyn, roedd peth offer wedi'i brynu o flaen llaw, bu recriwtio swyddogion newydd ac mae prosesau dylunio bellach yn fwy prydlon sy'n golygu bod llai o amser yn cael ei gymryd yn y cyfnod dylunio. Roedd cynnydd hefyd wedi bod yn y gyllideb i helpu gyda'r holl ymyriadau.

Ceisiodd yr aelodau egluro ai Cymru neu Gaerdydd sydd â nifer uwch o feysydd chwarae i bob plentyn o'i gymharu â Llundain; dywedodd swyddogion mai Cymru yw hi. Gofynnodd yr aelodau beth yw'r sefyllfa ar gyfer Caerdydd o ran meysydd chwarae fesul plentyn.

Holodd yr aelodau a ddylai'r cyfeiriad at DGS yn y ddogfen rhaglen meysydd chwarae a ddarperir fel rhan o'r papurau ar gyfer yr eitem hon ddarllen CCA; roedd

swyddogion yn cydnabod bod hyn yn wir ac y dylai gyfeirio at CCA (Canllawiau Cynllunio Atodol).

Gofynnodd yr aelodau a fyddai Cynghorwyr yn cael gwybod pa mor frys yw’r gwaith sydd ei angen. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y rhan fwyaf o'r gwaith yn risgiau blaenoriaeth isel, roedd y statws coch a ddangoswyd yn ffordd swyddog mewnol o raddio'r gwaith a nodi pa rai i fynd i'r afael â nhw a phryd, yn hytrach na baner goch fel mater Iechyd a Diogelwch. Cafodd yr aelodau sicrwydd y byddent bob amser yn cael gwybod ar unwaith pe bai materion Iechyd a Diogelwch yn codi ac y gwneid trefniadau ar gyfer atgyweirio neu ddileu ar unwaith.

Fe wnaeth yr aelodau ofyn am wybodaeth am gostau gosod maes chwarae mewn ardal. Dywedodd swyddogion mai graddfa symudol oedd hyn yn dibynnu ar gwmpas a maint a'r math o faes chwarae. Gallai'r costau fod yn unrhyw le rhwng £350k am le chwarae mwy i £500k am barc sglefrio.

Cyfeiriodd aelodau at yr amser a gymerwyd i amnewid cyfarpar chwarae pan fydd wedi'i waredu oherwydd ei oedran neu i'w atgyweirio ac a oedd modd cael pot arian ar wahân i ddelio â'r achosion hyn. Ystyriodd aelodau y byddai gwybodaeth ar amseroedd i amnewid y rhain yn ddefnyddiol i ddelio â chwestiynau trigolion. Dywedodd swyddogion bod cyfathrebu Aelodau Lleol wedi gwella ond fe gytunon nhw y byddai modd ei wella ymhellach. Ychwanegodd swyddogion bod y gyllideb cynnal a chadw refeniw dan ormod o straen i gael pot o arian ar wahân a'u bod yn aml yn dibynnu ar gyllid A106 na ellir ei ddefnyddio ar draws wardiau ac felly nid yw disodli cyfarpar bob amser yn syml. Darparwyd enghraifft o siglen yn cael ei disodli ac eglurodd Swyddogion fod hyn yn aml hefyd yn gofyn am waith ail-wynebu hefyd. Ychwanegodd swyddogion ymhellach er bod cynnydd wedi bod yn y gyllideb, eu bod yn dal yn eithaf cyfyngedig gyda'r hyn y gallant ei wneud, ac mae pris cyfarpar chwarae yn uchel iawn. Ar hyn o bryd mae hyfforddiant i'r tîm mewnol ar gyfer gosod a rhoi wyneb newydd fel bod llai o ddibyniaeth ar gontractwyr. Mae eitemau bach o gyfarpar chwarae bellach yn cael eu cadw mewn stoc ac mae swyddogion yn archwilio pob safle ac yn blaenoriaethu rhai sydd â bylchau.

Nododd aelodau nad yw arian A106 bob amser mewn ardaloedd sydd ei angen fel wardiau sydd wedi hen ennill eu plwyf heb unrhyw ddatblygiadau newydd, felly'r unig ffordd o fynd i'r afael â hyn yw cynyddu cyllideb y gronfa gyffredinol. Cytunodd swyddogion a dywedodd mai cyllideb Refeniw oedd yr unig arian y gellir ei ddefnyddio i unrhyw gyfeiriad. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn parhau i ddal i fyny ac y byddai'n cymryd cwpl o flynyddoedd i weld y budd o hyfforddi'r tîm yn fewnol, gan ddefnyddio'r feddalwedd rheoli a gweithio'n gallach.

Cafwyd trafodaeth ynghylch annhegwch arian A106 a chyfyngiadau cyfraith gynllunio. Esboniodd swyddogion fod cyllid cyfalaf yn y gorffennol wedi pontio'r bwlch lle nad oedd fawr ddim o A106, yn seiliedig ar angen. Fodd bynnag, eleni roedd segurdod mewn ceisiadau twf cyfalaf.

Bu'r aelodau'n trafod y defnydd o foncyffion a chlogfeini ar gyfer chwarae naturiol a chael cyngor y byddai'r rhain yn cael eu defnyddio yn ogystal â gwella'r offer chwarae traddodiadol. Fe wnaeth yr aelodau gwestiynu a oedd tystiolaeth a oedd y rhain yn rhoi profiad da i blant. Dywedodd swyddogion fod tystiolaeth yn dangos bod plant yn chwarae am fwy o amser gyda chyfarpar chwarae naturiol er y gallai fod angen mewnbwn oedolion i ddechrau chwarae arnynt.

Gofynnodd aelodau am sicrwydd y byddai ymgynghori gydag Aelodau lleol ynglŷn ag unrhyw resymoli o safleoedd meysydd chwarae yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion y byddai.

Trafododd yr aelodau newid hinsawdd ac a oedd angen addasu meysydd chwarae er mwyn adlewyrchu'r tywydd cynhesach. Cyfeiriodd yr aelodau at ddarparu cysgod mewn meysydd chwarae a thrafod y cyfarpar chwarae metel yn mynd yn rhy boeth i'w ddefnyddio yn ogystal â'r angen i amddiffyn rhag canser y croen. Eglurodd swyddogion nad oedd llawer o ddewis ond defnyddio metel oherwydd fandaliaeth a gwydnwch. O ran cysgod, roedd canopi coed dros y brif ardal chwarae yn tueddu i gael ei osgoi wrth i gwymp dail a mwsogl wneud y rhain yn llithrig ac mae'n dirywio'n gyflymach, fodd bynnag gellir darparu cysgod o amgylch ymylon meysydd chwarae.

Holodd yr aelodau a oedd Ardal Chwarae Drovers Way ar y rhaglen eleni; fe wnaeth swyddogion egluro ei fod, eu bod yn aros i gael y gwaith Priffyrdd angenrheidiol gael ei gwblhau cyn y gallan nhw ddechrau ar y gwaith, a'r disgwyl yw y byddan nhw'n gallu dechrau ar y safle yn gynnar yn 2023.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

22 : RHAGLEN WAITH 2022-23

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi'r Pwyllgor i ystyried diwygiadau pellach i'w raglen waith ddrafft er mwyn galluogi Aelodau i gwblhau eu rhaglen waith am weddill y flwyddyn ddinesig.

Yn ôl yr aelodau, roedd y Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad gan Glwb Hwylio Bae Caerdydd i ymweld â'u cyfleusterau a dysgu am yr hyn maen nhw'n ei wneud, gan gynnwys eu gwaith allgymorth cymunedol. Roedd yr aelodau yn awyddus i ymuno â'r Cadeirydd ar yr ymweliad.

Cafodd yr aelodau wybod bod Hyfforddiant Craffu ar gael ar 1 Tachwedd am 5.00pm. Cafodd Swyddogion Craffu profiadol eu hannog i fynychu'r hyfforddiant hefyd i helpu eu cydweithwyr newydd.

PENDERFYNWYD:

I. Cytuno ar Gylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad.

II. Cymeradwyo'r enwebiadau ar gyfer y grŵp gorchwyl fel Cynghorwyr Robinson, Wong, Lloyd Jones, Berman, Henshaw a Jenkins.

III. Cytuno ar y rhaglen waith yn Atodiad B i'r adroddiad.

IV. Cytuno ar y Flaenraglen Waith yn Atodiad D, ac i'w chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

V. Cytuno i aelod o'r Cyngor Ieuenctid fod yn Gynrychiolydd ar y Pwyllgor.

23 : DIWEDDARIAD GOHEBU

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu ddiweddariad ar ohebiaeth anfonwyd a dderbyniwyd ar gyfer Aelodau.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

24 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

25 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

17 Hydref 2022 am 5.00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm